# SL(6)542 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2024

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc) (Cymru) 2004 (y "prif Reoliadau"), sy'n gwneud darpariaethau ynghylch y cyffuriau, meddyginiaethau neu sylweddau eraill y gellir eu harchebu o dan amgylchiadau penodol i gleifion wrth ddarparu gwasanaethau meddygol o dan gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol ("contract GMC") o fewn ystyr adran 42 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc) (Cymru) (Diwygio) 2024 ("Rheoliadau 2024") a wnaed ym mis Gorffennaf 2024 yn diwygio'r prif Reoliadau. Roeddent yn gosod cyfyngiadau ar ragnodi analogau hormon sy'n rhyddhau gonadotroffin (GnRH) gan ymarferwyr meddygol cyffredinol yng Nghymru pan gânt eu defnyddio i atal y glasoed fel rhan o drin anghyfathiant rhywedd neu ddysfforia rhywedd ymhlith plant a phobl ifanc o dan 18 oed.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymestyn y cyfyngiadau hyn y tu hwnt i driniaeth a ddarperir gan ymarferydd meddygol cyffredinol i driniaeth a ddarperir o dan gontract GMC. Bydd hyn yn cynnwys rhagnodwyr fel rhagnodwyr nyrs annibynnol neu ragnodwyr fferyllydd annibynnol sy'n rhagnodi o dan gontract GMC. Mae'r Nodyn Esboniadol yn esbonio,"*Mae'r newid hwn yn cydnabod y cynnydd yn y defnydd o ragnodwyr annibynnol (gan gynnwys rhagnodwyr meddygol ac anfeddygol) mewn lleoliadau GMC ac mae'n ei gwneud yn eglur bod y cyfyngiadau yn gymwys i unrhyw berson sy'n rhagnodi o dan gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol, gan gynnwys rhagnodi gan ragnodwyr annibynnol.*"

## Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheoliad 2(3)(b) o'r Rheoliadau hyn yn hepgor y diffiniad o '*general medical practitioner*', a fewnosodwyd yn flaenorol gan Reoliadau 2024, o Atodlen 2 i'r prif Reoliadau. Mae hyn yn dilyn ymlaen o'r diwygiad i golofn 2, paragraff (2), yn y cofnod ar gyfer "GnRH analogue", gan reoliad 2(3)(a) o'r Rheoliadau hyn, sy'n dileu'r cyfeiriad at a '*general medical practitioner*' yn y cofnod hwnnw.

Fodd bynnag, nodir bod y tabl yn Atodlen 2 i'r prif Reoliadau yn gwneud sawl cyfeiriad arall at '*general medical practitioner*' yn y cofnodion sy'n ymwneud ag "Oseltamivir (Tamiflu)" a "Zanamivir (Relenza)". O ganlyniad i'r diwygiad a wnaed gan reoliad 2(3)(b), ni fydd gan y cyfeiriadau hynny ystyr diffiniedig mwyach.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro'r dehongliad o '*general medical practitioners*' yn Atodlen 2 i'r prif Reoliadau, yn dilyn y diwygiad a wnaed gan reoliad 2(3)(b).

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mabwysiadodd Rheoliadau 2024 ddiffiniad o "*general medical practitioner*" fel ymarferydd meddygol y mae ei enw wedi ei gynnwys yn y Gofrestr Ymarferwyr Cyffredinol a gedwir gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol o dan adran 2 o Ddeddf Meddygaeth 1983 ("Deddf 1983"). Mewnosodwyd y diffiniad hwn yn Atodlen 2 i'r prif Reoliadau.

Trafododd y Pwyllgor Reoliadau 2024 a chyflwynodd adroddodd anynt ar 16 Gorffennaf 2024. Adroddodd ar ddiffyg eglurder ynghylch y diffiniad hwnnw drwy nodi y caiff y Gofrestr Ymarferwyr Cyffredinol ei chynnal o dan adran 34C, yn hytrach nag adran 2, o Ddeddf 1983. Roedd ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor yn derbyn y diffyg eglurder ac esboniodd y byddai'r ddarpariaeth yn cael ei gwneud yn gliriach "*ar y cyfle nesaf sy'n codi, ac o fewn y 12 mis nesaf*". Mewn llythyr i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 24 Medi 2024, mynegodd y Pwyllgor siom y byddai'r diffyg eglurder hwn yn aros ar y llyfr statud am hyd at 12 mis arall.

Bwriad y polisi y tu ôl i'r Rheoliadau hyn yw ymestyn y cyfyngiadau ar bresgripsiwn atalyddion glasoed y tu hwnt i ymarferwyr meddygol cyffredinol. Nodwyd y newid polisi hwn yn ymateb yr Ysgrifennydd Cabinet i'r Pwyllgor ar 7 Hydref 2024 a darperir rhagor o fanylion yn y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn.

O ganlyniad, caiff y diffiniad o '*general medical practitioner*' a fewnosodwyd yn Atodlen 2 i'r prif Reoliadau gan Reoliadau 2024 ei hepgor gan reoliad 2(3)(b) o'r Rheoliadau hyn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phwynt adrodd 1.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 11 Tachwedd 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.